Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau
National Joint Registry
www.njrcentre.org.uk

Ffurflen Ganiatâd Cleifion NJR

Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau –

Beth mae'n ei olygu i chi fel claf?

Ynglŷn â Chofrestrfa Genedlaethol y Cymalau (NJR)

Mae llawdriniaethau i osod cymal newydd yn y glun, y pen-glin a'r ffêr bellach yn gyffredin ac yn llwyddiannus gan helpu llawer o gleifion i symud yn well a lleddfu eu poen. Mae'n bosib y bydd ar nifer o bobl angen llawdriniaeth arall ar yr un cymal rywdro yn y dyfodol. Fe all hyn ddigwydd am nifer o resymau, a'r mwyaf cyffredin yw bod impiad y cymal wedi treulio. Mae llawer gwahanol math o impiad, ac nid oes data ar effeithiolrwydd tymor hir llawer ohonynt. Er mwyn gwella mwy ar lwyddiant y llawdriniaeth yma, mae'r Adran Iechyd a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau (sydd hefyd yn cael ei adnabod fel NJR) i fonitro perfformiad impiadau'r cymalau.

Bwriedir i NJR gofnodi manylion pob llawdriniaeth i osod cluniau, pengliniau a fferau newydd yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys y GIG a'r sector gofal iechyd annibynnol fel ei gilydd, ac er mwyn llwyddo yn hyn o beth, mae angen i NJR gasglu gwybodaeth am gymaint o bobl â phosib sy'n cael y llawdriniaethau hyn.

Manteision NJR i chi;

Bydd NJR yn cael ei gasglu i ddod â manteision uniongyrchol i gleifion trwy:

- wella ymwybyddiaeth cleifion o ganlyniadau llawdriniaethau i osod cymalau cluniau, pengliniau a fferau newydd
- darganfod pa mor hir y mae'r gwahanol gymalau newydd yn para

- helpu i nodi cleifion unigol sydd wedi derbyn impiad a ble gallai fod angen adolygiad clinigol brys.

Hefyd, bydd data NJR yn ei ddefnyddio i ddod â manteision ychwanegol trwy:

- ddarparu adborth i lawfeddygon a thimau orthopedig i'w helpu i gynnal safonau clinigol uchel
- hybu cyhoeddiadau agored ynghylch pherfformiad gwahanol impiadau
- darparu adborth ar berfformiad impiadau i awdurdodau rheoleiddio
- darparu adborth i gyflenwyr ynghylch perfformiad eu himpiadau
- monitro a chymharu perfformiad ysbytai

Mae'n bosib y bydd y data a gaiff ei gasglu trwy NJR yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ymchwil feddygol. Fe fydd y data yn gwbl anhysbys fel na fydd yn bosib eich adnabod. Mae prosiectau ymchwil yn destun adolygu a chraffu moesegol, ac ni chaniateir mohonynt oni bai fod disgwyl i'r canlyniadau roi manteision sylweddol i ofal iechyd cleifion.

Sut i ddod i wybod mwy am NJR

Gallwch fynd i wefan NJR yn **www.njrcentre.org.uk** neu gysylltu â Llinell Gymorth NJR

Llinell Gymorth NJR
Llun-Gwener o 9am i 5pm (ac eithrio gwyliau cyhoeddus)

Canolfan NJR
Peoplebuilding 2, Peoplebuilding Estate, Maylands Avenue,
Hemel Hempstead HP2 4NW

Ffôn: 0845 345 9991	**Ffacs:** 0845 345 9992

E-bost: health_servicedesk@njrcentre.org.uk

Dylai cleifion ddychwelyd eu ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi at eu hysbyty ac NID i'r Ganolfan NJR.

Gwybodaeth bersonol – beth sydd ei angen a pham?

Mae'r wybodaeth y bydd ei hangen ar NJR yn cynnwys eich manylion personol (a ddangosir isod), a manylion eich llawdriniaeth. Fe fydd hyn yn eich cysylltu chi â'r impiad(au) a gawsoch, yn ogystal â galluogi NJR i gysylltu eich manylion ag unrhyw lawdriniaeth impiad y cymalau a gewch chi yn y dyfodol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i NJR fonitro perfformiad impiadau.

Os sylwir bod perfformiad unrhyw impiad yn broblem, fe fydd cael eich manylion personol yn NJR yn ein helpu i gysylltu â chi. Mae'n bosib y byddwn yn cysylltu â chi yn y dyfodol i ofyn i chi gwblhau holiadur adborth i gleifion.

Casglu data – ei ddiogelwch a'i gyfrinachedd

Mae NJR yn defnyddio system electronig i gasglu data. Bydd y data yn cael ei anfon yn ddiogel i gronfa ddata a warchodir, gan osgoi gorfod anfon cofnodion papur trwy'r post, er mwyn sicrhau bod y data mor ddiogel â phosib.

Mae eich gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol, ac ni fydd modd ei defnyddio y tu allan i NJR. Mae gweithdrefnau wedi'u sefydlu i warchod eich data a'i gadw'n gyfrinachol; ni fydd ar gael ond i chi a'ch llawfeddyg. Os dymunwch, gallwch gyrchu copi o'ch cofnod chi eich hun yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Gwirfoddol yw cymryd rhan yn y cynllun

Mae'r ffurflen hon yn gofyn am eich caniatâd i NJR gofnodi'ch gwybodaeth bersonol. Mae cymryd rhan yn NJR yn gwbl wirfoddol. Os ydych yn cytuno ond yna'n newid eich meddwl, gallwch ddiddymu'r caniatâd yma ar unrhyw adeg trwy gysylltu â Chanolfan NJR. Os nad ydych yn cytuno, fe fydd data ynghylch eich llawdriniaeth yn cael ei gynnwys, ond ni fydd unrhyw fanylion personol ynghlwm wrthynt. Fe fydd hyn yn sicrhau na fydd modd olrhain manylion llawdriniaethau unigol i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon, neu os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am NJR neu eich hawliau dan Ddeddf Diogelu Data 1998, yna cysylltwch â Chanolfan NJR.

Manylion y Claf (i gyd yn orfodol)

Cyfenw _____

Enw cyntaf _____

Dyddiad Geni _____

Côd Post eich Cartref _____

I'w gwblhau gan yr Ysbyty

Ysbyty _____

Rhif GIG _____

Taldra _____ a Phwysau _____ neu BMI _____

RWY'N CANIATÁU i'm manylion personol gael eu cofnodi o fewn NJR. Deallaf na fydd NJR yn rhyddhau fy nata personol oni bai fod y gyfraith yn mynnu bod hynny'n digwydd neu oni bai fod datgelu'r data o fudd hollbwysig i'r cyhoedd. Fodd bynnag, ble bynnag y bydd modd, byddaf yn cael gwybod os bydd unrhyw wybodaeth yn cael ei datgelu.

Llofnod _____ Dyddiad _____

NID WYF YN CANIATÁU i'm manylion personol gael eu cofnodi o fewn NJR.

Llofnod _____ Dyddiad _____

I'w gwblhau gan yr Ysbyty (y sawl sy'n derbyn caniatâd y claf)

Enw _____ Llofnod _____

Swydd _____ Dyddiad _____

Dylai'r ffurflen hon gael ei chadw fel rhan o gofnod y claf, PEIDIWCH ag anfon y ffurflen hon at Ganolfan NJR.